Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

# Ymateb Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru i: Swyddfa Gartref - Atal defnyddio ffermydd SIM ar gyfer twyll

Yn cau 14 Mehefin 2023
Ymateb a gyflwynwyd drwy'r arolwg ar-lein.

## Cwestiynau

**Diffiniad a defnydd o ffermydd SIM**
**C1. A ydych yn cytuno â diffiniad y llywodraeth o fferm SIM, fel dyfais sy'n cynnwys mwy na phedwar cerdyn SIM?**
Ydw, yn y sefyllfa bresennol lle bo pedwar gweithredwr symudol yn y DU, ond dylai hyn ostwng os bydd dau yn uno neu os bydd un yn rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaethau.

**C2. Pa dechnoleg arall allai gael ei chyflwyno dan y gwaharddiad hwn a sut y dylid disgrifio hyn?**
Technoleg sy'n caniatáu'r cyfuniad, cysylltedd neu lwybr uniongyrchol / anuniongyrchol rhwng mwy na dau neu fwy o ffermydd SIM a / neu yn gwneud yr un fath i system ffôn ar-lein.  Mae hyn yn bwysig gyda mwy o rifau ffôn a gohebiaeth yn cael ei gyflawni drwy apiau fel Microsoft Teams, WhatsApp neu drwy VoIP neu raglenni a llwyfannau sy'n cael eu galluogi gan y rhyngrwyd.
Efallai y bydd angen deddfwriaeth sy'n delio â Ffermydd SIM a thechnoleg AI yn cael eu cysylltu â'i gilydd, gallai datblygiad y ddau fath o dechnoleg ddechrau atal cyfathrebu gwirioneddol rhwng teuluoedd, ffrindiau a'r gymuned ehangach gyda'r potensial i ddysgu ac efelychu ymddygiad.

**C3. Pa droseddau y mae ffermydd SIM yn cael eu defnyddio er mwyn eu hwyluso??**
Mae'n ymddangos bod ffermydd SIM yn cael eu defnyddio ar gyfer unrhyw beth y gellir defnyddio ffôn neu SIM unigol ar ei gyfer, ond ar raddfa ehangach.  Er enghraifft: dwyn arian; rhannu gwybodaeth anghywir er budd ariannol, gwleidyddol neu heb reswm; twyll rhamant pan gaiff ei gyfuno â theclynnau eraill; dwyn hunaniaeth; canfod lleoliad y gellir ei ddefnyddio i ddod o hyd i oedolion neu blant diamddiffyn / mewn perygl neu wrth aflonyddu neu stelcio; er mwyn aflonyddu; rhannu negeseuon niweidiol (gan gynnwys casineb at ferched) a allai arwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddau casineb neu waeth.

**C4. A oes gennych unrhyw ddata neu enghreifftiau i ddangos maint defnydd anghyfreithlon ohonynt?**
Dim ar yr amser yma

**C5. A ydych yn ymwybodol o ddefnydd cyfreithlon o ffermydd SIM nad yw wedi'i grybwyll yn y ddogfen hon?**
Na

**C6. A oes gennych ddata neu enghreifftiau i ddangos maint y defnydd cyfreithlon honynt?**
N/A. Gwelwch cwestiwn 5.

**C7. [I fusnesau] A yw eich busnes yn defnyddio ffermydd SIM?**
a) Ydy
**b) Nac ydy**

**B. Technolegau eraill a ddefnyddir ar gyfer twyll yn y DU**
**Ydych yn gwybod am unrhyw dechnolegau, gwasanaethau neu ddyfeisiau eraill, arlein neu all-lein, y gellir eu defnyddio i wneud pethau tebyg i ffermydd SIM? Pa mor hawdd fyddai hi i newid i'r rhain?**
Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw rai penodol ar hyn o bryd, ond o ystyried cyflymder datblygiadau technolegol mae'n debyg bod rhai eisoes ar ddefnydd neu ar fin cael eu defnyddio.  Mae Grwpiau Troseddu Cyfundrefnol yn dda am newid prosesau, gweithgareddau, teclynnau ac felly, nid ydym yn gweld unrhyw reswm pam y byddai cyfnewid rhwng technolegau, gwasanaethau, dyfeisiau yn anodd iddynt.

**C9. A ydych yn gwybod am unrhyw ddefnydd cyfreithlon o'r eitemau a nodwyd yn C8?**
a) Ydw
**b) Nac ydw**

**C10. [I fusnesau] A yw eich busnes yn defnyddio unrhyw rai o'r eitemau a nodwyd yn C8?**
a) Ydy
**b) Nac ydy**

**C11. A ydych yn gwybod am unrhyw dechnolegau, gwasanaethau neu ddyfeisiau eraill, ar-lein a/neu all-lein, y gellir eu defnyddio i anfon negeseuon testun sgam a/neu wneud galwadau sgam?**
a) Ydw
**b) Nac ydw**

**C12. A ydych yn ymwybodol o unrhyw ddefnydd cyfreithlon o'r eitemau a nodwyd yn C11?**
a) Ydw
**b) Nac ydw**

**C13. [I fusnesau] A yw eich busnes yn defnyddio unrhyw rai o'r eitemau a nodwyd yn C11?**
a) Ydy
**b) Nac ydy**

**C. Cynnig i wahardd gweithgynhyrchu, mewnforio, gwerthu, llogi, meddu a/neu ddefnyddio ffermydd SIM yn y DU**

**C14. I ba raddau rydych yn cytuno â'r cynnig i wahardd gweithgynhyrchu, mewnforio, gwerthu, llogi, meddu a/neu ddefnyddio ffermydd SIM yn y DU?**
**a) Ydw – cytuno'n llwyr**
b) Ydw – cytuno'n rhannol/ nid pob agwedd ar y gwaharddiad
c) Nac ydw – anghytuno
d) Ddim yn gwybod

**C15. A ddylai hon fod yn drosedd atebolrwydd caeth (h.y. bod y troseddwr yn cael ei ddal yn atebol am weithgynhyrchu, mewnforio, gwerthu, llogi, meddu a/neu ddefnyddio ffermydd SIM p'un a yw wedi ymddwyn â'r bwriad i gyflawni trosedd ynteu ag esgeulustod)**
Dylai, hyd yn oed pe bai'r dyfeisiau wedi'u gwerthu yn ddidwyll i ddechrau ni fyddai gwarant na fyddent yn cael eu defnyddio ar gyfer ymddygiad troseddol a / neu dwyllodrus nawr neu yn y dyfodol.

**C16. A ddylai'r gosb am y drosedd hon fod yn ddirwy anghyfyngedig neu pa gosb arall fyddai'n briodol?**
Nid ydym yn bendant y byddai dirwy, waeth beth fyddai swm y ddirwy, yn cael effaith negyddol ar weithgareddau grwpiau troseddu cyfundrefnol neu hyd yn oed y troseddwyr cyfundrefnol eu hunain. Efallai y bydd angen cyd-destun felly efallai y bydd angen cosbau llym ar gyfer amryfal droseddau fel cyfnod yn y carchar.

**C17. Sut fyddai gwahardd ffermydd SIM yn effeithio ar ddefnydd cyfreithlon ohonynt (os oes defnydd cyfreithlon)?**
Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw effaith gan nad ydym yn ymwybodol o unrhyw ddefnydd cyfreithlon.

**C18. Sut fyddai gwahardd ffermydd SIM yn effeithio ar ddefnydd anghyfreithlon neu droseddol ohonynt?**
Gall ei wneud yn anoddach iddynt gael mynediad ato ond gallai olygu y byddai canlyniadau os cewch eich dal gyda fferm SIM, lle nad oes unrhyw rwystr iddynt ar hyn o bryd.

**C19. A ydych yn ymwybodol o unrhyw grwpiau o fusnesau, sefydliadau a/neu unigolion a fydd yn cael eu heffeithio'n benodol gan y cynigion hyn?**
a) Ydw
**b) Nac ydw**
c) Ddim yn gwybod

**C20. A oes unrhyw ddulliau eraill o atal troseddwyr rhag camddefnyddio ffermydd SIM a allai hefyd gyflawni'r nod o ddiogelu'r cyhoedd rhag sgamiau negeseuon testun torfol?**
a) Oes
**b) Nac oes**

**C21. Beth fyddai effaith y cynnig hwn i wahardd gweithgynhyrchu, mewnforio, gwerthu, llogi, meddu a/neu ddefnyddio ffermydd SIM yn y DU ar eich busnes neu sefydliad pe bai'n dod i rym?**
Dim

**C22. A ddylid pennu cyfnod pontio byr, â chyfyngiadau amser caeth, i ganiatáu i fusnesau, sefydliadau ac unigolion gael gwared ar ffermydd SIM??**
a) Dylid
**b) Na ddylid**

**D. Cynigion i wahardd gweithgynhyrchu, mewnforio, gwerthu, llogi, meddu a/neu ddefnyddio technolegau (eraill) a ddefnyddir ar gyfer twyll yn y DU**

**C23. A ydych yn ymwybodol o unrhyw effaith y gallai ein cynigion i wahardd gweithgynhyrchu, mewnforio, gwerthu, llogi, meddu a/neu ddefnyddio technolegau (eraill) a ddefnyddir ar gyfer twyll yn y DU ei gael, nad ydym wedi'u cofnodi yn y ddogfen hon?**
a) Ydw
**b) Nac ydw**

**C24. A ydych yn ymwybodol o unrhyw grwpiau o fusnesau, sefydliadau a/neu unigolion a fydd yn cael eu heffeithio'n benodol gan y cynnig i wahardd technolegau eraill??**
a) Ydw
**b) Nac ydw**

**C25. Beth fyddai effaith y cynnig i wahardd technolegau eraill a ddefnyddir ar gyfer twyll yn y DU ar eich busnes neu sefydliad chi, pe bai'n dod i rym?**
Dim effaith

**C26. A oes gennych unrhyw sylwadau neu wybodaeth bellach i ychwanegu at y nodyn economaidd a gyhoeddwyd fel sail bellach i'n cynigion?**
a) Oes
**b) Nac oes**

**E. Y gallu i ychwanegu rhagor o eitemau at y rhestr o dechnolegau sydd wedi'u gwahardd**
**C27. A ddylai'r Ysgrifennydd Gwladol allu ychwanegu eitemau at y rhestr o dechnolegau wedi'u gwahardd yn y dyfodol?**
**a) Dylai**
b) Na ddylai

**C28. A oes amodau yn ymwneud â thystiolaeth o ddefnydd, ymgynghori â rhanddeiliaid a gweithdrefn gadarnhaol briodol ar gyfer ychwanegu eitemau at y rhestr o dechnolegau wedi'u gwahardd?**
Oes, ond rydym yn credu bod angen cynnwys yr angen i ymgysylltu â gweinyddiaethau datganoledig boed fel mater datganoledig neu wedi'i gadw'n ôl, gan y gallai achosi goblygiadau ehangach.

**C29. Rydym yn cynnig bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gallu ychwanegu at y rhestr o dechnolegau sydd wedi'u gwahardd yn y dyfodol. A ydych chi'n ymwybodol o unrhyw effaith y gall y cynnig hwn ei gael, nad ydym wedi'i gynnwys yn y ddogfen hon?**
a) **Ydw**
b) Nac ydw

**C30. A ydych yn ymwybodol o unrhyw grwpiau o fusnesau, sefydliadau a/neu unigolion a fydd yn cael eu heffeithio'n benodol gan y cynnig hwn?**
a) Ydw
**b) Nac ydw**

Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

**F. Cais am Dystiolaeth**

**C31. A oes gennych unrhyw ddata neu dystiolaeth i ddangos graddfa defnydd cyfreithlon o ffermydd SIM a thechnolegau eraill a ddefnyddir i gyfathrebu ar raddfa fawr?**
Na

**C32. A oes gennych unrhyw ddata neu dystiolaeth i ddangos graddfa'r defnydd anghyfreithlon o ffermydd SIM a thechnolegau tebyg?**
Na

**C33. Sut fyddai gwahardd ffermydd SIM yn effeithio ar eu defnydd cyfreithlon ac anghyfreithlon?**
Gwelch atebion I'r cwestiynau blaenorol, yn enwedig cwestiynau 3, 4, 5 ac 8.

**C34. A ydych yn ymwybodol o unrhyw effaith y gallai'r cynigion ei gael nad ydym wedi'i gofnodi yn y nodyn effaith economaidd a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ddogfen hon?**
Dim ar yr amser yma.

**Effeithiau ar Gydraddoldeb**
**C33. A oes gennych unrhyw sylwadau am y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon mewn cysylltiad ag effeithiau ar bobl ar sail unrhyw rai o'r nodweddion gwarchodedig a ganlyn dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010: oed; anabledd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd; priodas neu bartneriaeth sifil? Faint allai effeithiau o'r fath gael eu lliniaru? (Dim mwy na 500 gair)**
Dylai bod effaith gadarnhaol ar gyfer y rhai â nodweddion gwarchodedig sydd, neu y gallent fod, yn cael eu targedu'n uniongyrchol neu drwy siawns gan droseddu cyfundrefnol gan ddefnyddio ffermydd SIM i dwyllo, aflonyddu neu ddwyn eitemau neu wybodaeth ganddynt (fel dwyn hunaniaeth).  Gallai lleihau cyrhaeddiad troseddu cyfundrefnol ac unigolion eraill gynorthwyo i ddatblygu cydlyniant cymunedol, drwy leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n cael ei dargedu tuag at unigolion neu gymunedau penodol a throseddau casineb sy'n canolbwyntio ar y nodweddion hynny.

**Amdanoch chi**
**Enw llawn:** Sarah Capstick
**Teitl swydd neu ym mha rinwedd rydych yn ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn:**
Rheolwr Datblygu Busnes a Rhwydwaith, Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru. Mae'r Rhwydwaith yn cynnwys partneriaid sy'n ymwneud â darparu diogelwch cymunedol ledled Cymru gan gynnwys Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, Gwasanaethau'r Heddlu, Gwasanaethau Tân ac Achub, Cynghorau, y Gwasanaeth Prawf a'r Trydydd Sector (gan gynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig).
**Dyddiad:** 14 Mehefin 2023
**Sefydliad:** Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru
E-bost: sarah.capstick@wlga.gov.uk or safercommunities@wlga.gov.uk
**Cyfeiriad:** Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru, Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Un Rhodfa'r Gamlas, Heol Dumballs, Caerdydd
**Cod Post:** CF10 5BF